

## **CYFLWYNIAD I GELF GYFOES CYMRU. CEFNDIR**

Mater o gryn syndod i mi yn Eisteddfod Llandw, oedd deall fod y bardd eangfrydig Twm Morys yn cyfadde nad oedd yn gwybod nesa peth i ddim an gelf weledol yng Nghymru. Iddo fo, y mae'r gyfrol hon yn bodoli, fydd yn ceisio olrhain ein celf mewn ffordd hawdd ei darllen.

Mae'n anodd dechre hanes celf mewn unrhyw fan penodol mewn amser, gan fod rywfaint o ddilyniant or oes gynt yn treiddio i mewn i unrhyw gyfnod newydd o gelf. Efo Modernrwydd, rydym mewn dwfwr dwfn, gan fod ambell theori yn cystadlu. Pryd ddechreuodd o? Pryd (ac os) orffenodd o? Diau, y teimlad cryfaf yw fod Modernrwydd Radical wedi gwreiddio a digwydd ym Mharis yn bennaf, cyn y rhyfel byd cyntaf. Gaugin, Cezanne, Picasso, Braque ac yna Duchamp yn rhoi rhyw agolwg o bethau fyddai'n dod erbyn diwedd y ganrif; Ol-Fodernrwydd. Mae eraill yn dadleu fod Modernrwydd wedi cychwyn mor bell yn ol a'r Dadenni, ac o ganfod y ffordd o gyflwyno 'perspectif' mewn darlun, h.y. syniad newydd o ddelio gyda gofod a chreu rhthganfyddiad (illusion). Eraill yn dweud mae nid peth ffurfiol yw Modernrwydd, ond ffordd o feddwl, a fod gwaith yr athryllith o Spaen, Goya, wedi newid y ffordd y byddem yn edrych ar y byd, ac ar ddamcaniaethau dynol.

Coel fawr Ewropeaidd oedd fod diwylliant yn esblygu, hy. Yn 'gwareiddio' o gam i gam, ein bod fesyl dipyn yn tyfu i fod yn greaduriaid llawer mwy gwaraidd, dysgedig ayb wrth i'r canrifoedd basio. Yn ol y ddamcaniaeth Ewropeaidd hon, Ewropeaid oedd ar y blaen yn y broses wrth gwrs. Mae eraill yn gweld esblygiad diwylliannol fel rhywbeth sydd yn mynd mewn cylchoedd...

Ta waeth, fu hon ddim yn broblem fawr i ni yng Nghymru... ni ddaeth Moderniaeth ffurfiol mewn Celf weledol yma hyd cannol y ganrif ddiwetha. Ond mae i hanes celf gyfoes yng Nghymru ddigon a ddylse ein diddori, a hefyd, digon a all fod yn gyflwyniad i gelf ymhobman, ac o waith bob cenedl dan haul.

I ddechre, rhaid dweud fod y beirniaid celf hyd yn ddiweddar iawn or un farn, na all y Cymry greu celf weledol. (Dyna ddatganiad hiliol os clywais un erioed, oes mae elfen gref o hiliolaeth yn chware rhan yn fan hyn; sut oedd coloneiddio meddylfryd cenedl gyfan fel Cymry? Wel, drwy eu dilorni a drwy fychanu eu diwylliant wrth gwrs, gwneud iddynt deimlo na ddylsent feiddio trio gwneud marc yn y byd. Dyma'r polisi fu yn llwyddiant mawr i'r Ymerodreath Brydeinig dros y byd. Ar y cyfan, o Lundain y daw y beirniaid rhain, ac mae'n siwr, am ganrifoedd, gêm ir cyfoethog oedd celf weledol (neu peintio a cherflunio fel oedd hi bryd hynny). Haws canu gwerin neu ymuno mewn côr, neu sgwennu cerdd ar lechen... dim llawer o 'outlay' yn fana. Gweithriedu yn gymdeithasol, nid unigol... bod mewn criw, rhan o gymuned... nid cloi eich hunain mewn gweithdy a chreu o'r dychymyg mewnbylg, unig, tu allan i gymdeithas. Galle ffarmwr ei wneud tra wrth ei waith. Dyna pam felly y bu rhaid i'n artistiaid gorau, Thomas Jones, Richard Wilson.. (gwyr bonheddig, nid y werin) adael am yr Eidal a Llundain i gael hyfforddiant, ac ar ol hyny, Augustus a Gwen John, Ceri Richards. Dim ond ar ddiwedd yr 19ganrif fu i ni

gael 'Ysgolion' Celf yng Nghymru.. yn Abertawe, Caerfyrddin, Caerdydd... ond mewn gwirionedd, tan y 1990au, roedd bron iawn yn ofyngedig i astudio yn Llundan cyn fedre unrhyw un greu gyrfa mewn celf. "Contacts"... dyna oedd ar gael yn y ddinas fawr. 'Contacts' a marchnad, ac, wel, dyw Cymru fach byth yn mynd i gael digon o rheini. Ond, yn ddiaw mae pethe wedi gwella yn ddybryd.

Wrth drafod hyn oll, wrth gwrs, rym ni yn dueddol o gyfuno ein dychymyg ein hunain drwy drafod celf y byd gorllewinol, (ein etifeddiaeth?) Ewrop a Gogledd America. Tra rydym yn trafod ein Celf, rhaid cofio fod pethe diddorol, a falle mwy perthnasol i'n cenedl fach a lleiafrifol ni, na'r hyn oedd yn mynd mlaen ym Mharis, Efrog Newydd, Llundan, Moscow neu Berlin. Beth am Mexico, Cuba, Zimbabwe...beth am China hyd yn oed, neu Awstralia ayb? Ac o fewn 'y Gorllewin', gwlad y Basg, Catalwnia, Croasia, Iwerddon?

Yn bwysig iawn hefyd, rhaid cofio fod awduron ar gelf yng Nghymru, Peter Lord yn bennaf, wedi ail ddarganfod gwerth celf frodorol y Cymry, ac wedi creu hanes newydd i ni fel cenedl, a pharch i'n celfyddydau gweledol, cain neu grefft. Dyma brosiect y byddwn yn ei alw yn rhyw fath o 'ol-drefedigaethol', ac yn cyd fynd a mudiadau tebyg dros y byd, ble mae diwyllianau yn ail-ddarganfod eu gwreiddiau a'u creadigrwydd cynhenid.. a fu yn golledig dan law drom eu meistri yn Llundan, neu Paris, Berlin, Efrog Newydd, Moscow (ie, yr union ganolfanau Celf Fodern, diddorol de?). A dyma i chi beth arall sydd yn cael ei ddweud, roedd Modernrwydd yn gyfystyr a Cholonialaeth y byd Ewropeaidd. Dyma binycl y traddodiad di-dor Ewropeaidd or Groegwyr ymlaen. Prawf sicr o ddyrchfiaeth y Gorllewin dros y gweddill o'r byd 'cyntefig'... a Cymru wrth gwrs yn rhan o hyn, 'coloni' cyntaf y Saeson.

Rhaid cofio hefyd, fod yr 'intelligencia' yng Nghymru, boed Saesneg neu Gymreig, yn deall yn iawn beth oedd yn mynd ymlaen yn y byd llenyddol a chelfyddydol, hyd yn oed os nad oedd hyn yn treiddio lawr at y 'werin'.. Mae modd hefyd ddadlau fod y celf a gynhyrchir yng Nghymru heddiw yn 'rhyngwladol' gan fod y dylanwadau yn eang iawn, drwy arddangosfeydd, llyfrau a chylchgronau celf, a'r we, ac wrth gwrs drwy addysg ysgolion celf. Nid yw bob amser yn berthnasol i sefyllfa arbennig Cymru a'r Cymry yn eu cornel o'r byd. Ond, mae'n bosib felly am y tro cyntaf, astudio celf rhyngwladol drwy gymeryd artistiaid o Gymru fel enghreifftiau o wahannol arddulliau a syniadau.

Er mwyn y traethawd hwn, byddaf yn cymeryd fod cychwyn 'Modernrwydd' yn bodoli yn y cyfnod Rhamantaidd, pan oedd ein artistiaid gwirioneddol fawr, a oeddynt hefyd yn cysidro eu hunain yn Gymru. Richard Wilson a Thomas Jones, yn gweithio.

CYMRU'N DEFFRO.

.  
DIWEDD BYD

A'i dyma ddiwedd byd? Neu ddechrau byd newydd? Wel, i raddau mae'r ddau ddatganiad yn wir. Bu dioeddafaint a chwyldro'r Rhyfel Byd Cyntaf yn ddigon o achos i ni weld y byd drwy lygaid newydd, ofnys ac hyderys. R'oedd dyfodiad y camera hefyd wedi cael effaith ar feddylryd yr artist. Dyma declyn

fedre greu delwedd o'r byd fel ag yr oedd. Dim rhaid i artist orfod cyfyngu ei hun i hyn felly, beth am drïo trafod y chwalfa fawr a ddigwyddodd ar ol y Rhyfel Byd, y cyrff mewn darnau, y dinistr, y dinasoedd dymchweledig? Dyma dorri y darlun, torri ar egwyddorion cyffyrddus y gorffennol.... Roedd Picasso wedi cychwyn ar y daith cyn y Rhyfel, fel pe bai wedi rhagweld y gyflafan, ei daith tuag at yr yrfa fwya trawsnewidiol yn hanes celf y ganrif ddiwetha nac unrhyw un arall. Ond tra roedd o yn creu darluniau 'Cubist' yn Montmartre yn 1908, yng Nghymru, y llun mwyaf trawsnewidiol, poblogaith, ac holl-bresennol oedd y darlun 'Salem' gan artist o Sais; Curnew Vosper.

Erbyn heddiw, dros ganrif ymlaen, yng ngwaith Carwyn Evans a ennillodd y Fedel Aur yn Eisteddfod Bro Morganwg, mae celf 'fodern' yn cael ei danseilio gan yr 'ymylol', y canol distaw yn gwegian gan yr estron sydd yn ymyrd ag o... fel llinellau o gynghanedd yng nghanol cerdd rydd, mae'r gorffennol, mae traddodiad yn mynu ei le...